Plantlife The global voice for wild plants and fungi










# Prosiect Glaswelltiroedd Gwydn Hyfforddeion Cadwraeth (2)

## Pecyn recriwtio

# Neges gan ein Prif Weithredwr



Mae cymdeithas yn cydnabod yn gynyddol na allwn ni gyflawni'r buddion rydyn ni'n eu ceisio i fyd natur ar wahân i'n heriau hinsawdd a chymdeithasol. Yn Plantlife mae gennym ni weledigaeth o fyd sy'n gyfoethog mewn planhigion a ffyngau ac o fyd natur sy'n ffynnu mewn byd cymdeithasol gyfiawn. Mae hyn wrth galon ein gwaith ni ac rwy'n gobeithio y bydd cynnwys y pecyn recriwtio yma'n eich ysbrydoli chi i ymuno â ni.

Gallaf ddweud heb betruso bod gennym ni dîm gwych yn Plantlife, yn unigol ac ar y cyd, sy'n cyfrannu at yr effaith gadarnhaol rydyn ni'n ymdrechu i'w chael. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda chymaint o bartneriaid craff ac, ochr yn ochr â nhw, rydyn ni'n sicrhau effaith real, ar raddfa a gyda chyflymder. Mae ein haelodaeth ni'n cynyddu mewn niferoedd, a'n cyllid ni'n cynyddu hefyd, ac yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer ein gwaith. Ar draws cymaint o gynefinoedd, gan weithio gyda chymaint o rywogaethau ac ymgysylltu â chymaint o gymunedau, ein nod ni yw bod yn sefydliad cadwraeth o ddewis; arbenigol, dylanwadol, hyblyg a hwyliog i weithio gyda ni ac ar ein rhan. Mae ein hangerdd ni dros y dasg dan sylw yn disgleirio bob amser.

Diolch i chi am eich diddordeb yn y rôl yma gyda Plantlife. Mae ein gweledigaeth ni ar gyfer byd sy'n gyfoethog mewn planhigion gwyllt a ffyngau yn sylfaenol i lwyddiant cymaint y mae'n rhaid i ni ei gyflawni fel cymdeithas. Os byddwn yn gwneud hyn yn iawn, gyda'n gilydd, byddwn yn gallu mynd i'r afael â'r heriau mae byd natur a newid yn yr hinsawdd yn eu hwynebu gydag ymgysylltu cymdeithasol llawn, a thrwy hynny warchod ac adfer y byd hardd yma rydyn ni'n byw ynddo. Byddem wrth ein bodd pe baech chi'n rhan o'r hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni, ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



Ian Dunn
Prif Weithredwr, Plantlife

# Ein gwaith

Yn sail i gyflwr ein hamgylchedd, ei blanhigion gwyllt a'i ffyngau mae'r sylfaen y gallwn ei defnyddio i helpu i ddatrys yr heriau hinsawdd, ecolegol a chymdeithasol sy'n ein hwynebu ni.

## Mae ein gwaith ni'n rhychwantu pedwar maes strategol:

### Gwarchod ac adfer



### Cysylltu pobl â byd natur



### Gweithio mewn partneriaeth



### Cydweithredu a dylanwadu



Ers dros 30 mlynedd, ni yn Plantlife yw'r llais byd-eang mwyaf blaenllaw ar gyfer planhigion gwyllt a ffyngau. Rydyn ni wrth galon rhwydwaith byd-eang, gan weithio mewn partneriaeth â llawer o unigolion, sefydliadau a pherchnogion a rheolwyr tir yn y DU a thramor i gyflymu camau cadwraeth ar draws y blaned.

Ond mae angen i ni wneud mwy. Felly mae gennym ni genhadaeth i godi ymwybyddiaeth o ba mor bwysig yw planhigion gwyllt a ffyngau i fywyd ac i ysbrydoli mwy o bobl i weithredu i'w helpu i ffynnu eto.

Ymunwch â ni wrth i ni wynebu her fwyaf ein hoes. Rydyn ni angen planhigion gwyllt a ffyngau i oroesi. Nawr, maen nhw ein hangen ni hefyd.

# Ein pobl

Mae Plantlife yn cael ei lywodraethu gan fwrdd o 12 o ymddiriedolwyr ac mae ganddo bron i 100 o staff wedi eu lleoli ar draws y DU. Mae'r rhan fwyaf o'n tîm ni'n gweithio o bell ac mae gennym ni swyddfeydd yn Salisbury, Swydd Wilt a Retford, Swydd Nottingham. Mae gennym ni hwb bach o staff hybrid neu staff swyddfa wedi'u lleoli y tu allan i'r swyddfeydd hyn ac mae lle bob amser i gydweithwyr sy'n ymweld sy'n ddigon agos i elwa o ofod swyddfa o bryd i'w gilydd pan maent yn dymuno. Rydyn ni'n cefnogi tîm o tua 1,500 o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn y maes, mewn digwyddiadau ac yn ei swyddfeydd ni.

Dim ond drwy weithio'n gynhwysol gyda'r cyhoedd, partneriaid, rheolwyr tir a chymunedau lleol y mae posib cyflawni ein gwaith ni. Drwy weithio'n gynhwysol, byddwn yn darparu cyfle cyfartal i gysylltu â byd natur, gan leihau rhwystrau i fynediad a chyfranogiad.

Mae hyn i gyd yn dechrau gyda'r bobl sy'n gweithio i ni ac rydyn ni'n chwilio am unigolion gwych, beth bynnag yw'r rôl y mae gennych ddiddordeb ynddi, i'n galluogi ni i gael mwy o bobl i ymwneud â byd natur. Rydyn ni eisiau sicrhau bod pawb sy'n gweithio i ni yn teimlo eu bod wir yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys fel eu bod yn teimlo bod posib iddyn nhw rannu eu safbwyntiau amrywiol ac unigryw a chyrraedd eu llawn botensial.

Mae pobl o liw a phobl anabl yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ar draws y sector amgylchedd, hinsawdd, cynaliadwyedd a chadwraeth. Os ydych chi'n uniaethu fel person o liw a / neu yn anabl, mae gennym ni ddiddordeb arbennig mewn derbyn eich cais. Caiff pob cais ei asesu ar sail eich addasrwydd ar gyfer y swydd yn unig, dim byd arall, ac mae ein ffurflenni cais ni'n ddienw er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb wrth lunio rhestr fer.

Rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod pawb sydd yn y broses recriwtio gyda ni yn cael profiad cadarnhaol a gwerth chweil a'i bod yn eich galluogi chi i fod ar eich gorau. Felly, ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio neu gyfweld, cysylltwch â'n tîm Adnoddau Dynol ar HRteam@plantlife.org.uk am gyngor ac i drafod addasiadau rhesymol.

Diolch i chi am eich diddordeb yn y rôl hon.



# Hyfforddeion Cadwraeth Glaswelltiroedd Gwydn



## Am y rôl

Gwelwyd dirywiad o 90% mewn glaswelltiroedd lled-naturiol yn ystod y ganrif ddiwethaf a dim ond 9% o Gymru maen nhw'n ei orchuddio bellach. Mae gweddill y glaswelltiroedd yn wynebu bygythiadau oherwydd datblygiad, llygredd ac arferion rheoli tir anghynaliadwy.

Rydyn ni'n creu newid cadarnhaol drwy brosiect Glaswelltiroedd Gwydn – mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar weithio gyda ffermwyr a pherchnogion tir i warchod, gwella ac adfer cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol ledled Cymru.

Rydyn ni'n ehangu ein tîm ar gyfer blwyddyn brysur o gyflawni yn 2025 ac yn ceisio recriwtio i 2 swydd hyfforddai cadwraeth i'n helpu ni.

Bydd y rôl hyfforddai yma'n cyfrannu'n weithredol at redeg y prosiect o ddydd i ddydd, drwy sesiynau hyfforddi sy'n cael eu darparu mewn technegau rheoli glaswelltir, arolygon planhigion a chynefinoedd, digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, a chynnwys blogiau a chyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfa ehangach drwy ein gwaith.

Byddwch yn cael cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd fel gweithio mewn partneriaeth, rheoli prosiectau, gwaith rheoli cynefinoedd ymarferol, sut i gynnal arolygon safle ar gyfer planhigion a chynefinoedd prin, sgiliau digidol a chyfathrebu a helpu i gynnal digwyddiadau ar gyfer y cyhoedd.

## Amdanoch chi

Pa sgiliau / profiad / rhinweddau personol ydych chi'n chwilio amdanynt?

Rydyn ni'n chwilio am bobl frwdfrydig o unrhyw gefndir a hoffai gyfle i ddatblygu a dilyn gyrfa yn y sector amgylcheddol yng Nghymru. Byddwch yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflwyno prosiect cadwraeth amlweddog sy'n canolbwyntio ar laswelltir, gan weithio gyda ffermwyr a pherchnogion tir, colegau a gwirfoddolwyr.


Rhaid i chi fwynhau gweithio gyda phobl a'u cynnwys mewn cadwraeth. Bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Yn fwy na dim rhaid bod gennych ddyhead i ddysgu sgiliau newydd a bod yn barod i deithio ledled Cymru yn aml.

Mae'r rôl hon yn rôl yn y cartref yn bennaf, fel rhan o dîm sy'n ynysig yn ddaearyddol.

Mae'r hyfforddeiaeth yma wedi'i chynllunio i greu cyfle datblygiad proffesiynol i bobl sy'n newydd i'r sector cadwraeth. Felly, dylai fod gan ymgeiswyr lai na 12 mis o brofiad gyda thâl yn y sector amgylcheddol / cadwraeth.

# Strwythur y Sefydliad



# Disgrifiad Swydd – Hyfforddai Cadwraeth Glaswelltiroedd Gwydn

## Yn adrodd i

Glaswelltiroedd Gwydn – Rheolwr Prosiect

## Yn gyfrifol am

Amherthnasol

## Perthnasoedd allweddol

Swyddogion Prosiect GG, Partneriaid cyflwyno'r prosiect

## Pwrpas cyffredinol y rôl

Bydd y rôl hyfforddai yma'n cyfrannu'n weithredol at gyflwyno'r prosiect o ddydd i ddydd, drwy sesiynau hyfforddi sy'n cael eu darparu mewn technegau rheoli glaswelltir, arolygon planhigion a chynefinoedd a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Prif gyfrifoldebau

• Cefnogi tîm y prosiect i gyflwyno prosiect cadwraeth glaswelltir cyflym sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu ledled Cymru.
• Helpu i drefnu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, a gweithio gyda gwirfoddolwyr.
• Cefnogi datblygiad deunydd cyfathrebu'r prosiect, gan gynnwys blogiau a chyfryngau cymdeithasol, sy'n targedu cynulleidfaoedd presennol a newydd.
• Darparu cefnogaeth weinyddol gyffredinol i'r prosiect yn ôl yr angen i gefnogi tîm y prosiect.
• Cefnogi staff y prosiect gydag arolygon cynefinoedd a gwaith cadwraeth ymarferol ar safleoedd yn ôl yr angen

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill

- Cadw at bolisïau gwaith Plantlife bob amser, gan gynnwys y rhai ar Iechyd a Diogelwch a Chyfleoedd Cyfartal.
- Ymgymryd, o bryd i'w gilydd, â dyletswyddau eraill a all fod yn ofynnol gennych i gefnogi effeithiolrwydd Plantlife yn gyffredinol.
- Cyfrannu at lwyddiant cyffredinol Plantlife a chefnogi diwylliant cadarnhaol drwy waith tîm, cyfathrebu ac arweinyddiaeth.

# Manyleb y Person

Rhaid i chi fod yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd. Rhaid i chi fod â sgiliau cyfathrebu rhagorol a mwynhau gweithio gyda phobl.
Er bod gennym ni ymweliadau safle rheolaidd a chyfarfodydd, bydd angen i chi fod yn hapus yn gweithio mewn rôl desg, yn gweithio gartref, fel rhan o dîm sy'n ynysig yn ddaearyddol.

## Gofynion hanfodol o ran sgiliau

- Gradd NEU gefndir perthnasol mewn cadwraeth neu reoli tir, gyda dyhead i ennill profiad gyrfaol cynnar

- Brwdfrydig a chyfranogol, gyda dyhead cryf i ddysgu sgiliau newydd ac angerdd dros gadwraeth glaswelltir

- Yn gymwys mewn TG, gan ddefnyddio holl feddalwedd Microsoft

- Medrus mewn datblygu cynnwys cyfryngau cymdeithasol

- Y gallu i weithio'n annibynnol o gartref, fel rhan o dîm prysur, ynysig yn ddaearyddol

- Mynediad i gludiant - eich trwydded yrru a'ch cerbyd eich hun yn hanfodol. Y gallu i deithio o gwmpas Cymru yn wythnosol

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

## Sgiliau dymunol

- Sgiliau Cymraeg – llafar ac ysgrifenedig
- Profiad amaethyddol
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a / neu'r sector addysg
- Sgiliau GIS

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried meini prawf ychwanegol, fel lleoliad yr ymgeiswyr, er budd gorau Plantlife.



# Telerau ac amodau allweddol

Mae'r rôl hon wedi'i lleoli yn y DU ac mae'n rhaid i chi allu dangos eich Hawl i Weithio yn y DU.

| | |
|---|---|
| **Cyflog** | £21,840 - £23,640 y flwyddyn *<br><br>*Mae pobl sy'n ymuno o'r newydd yn cael eu recriwtio ar bwynt mynediad y band: £21,840 |
| **Oriau gwaith** | Llawn amser – 35 awr yr wythnos |
| **Tymor** | Cytundeb Tymor Penodol – 12 mis |
| **Lleoliad** | Gweithio gartref, gyda theithio helaeth ledled Cymru |

# Sut byddwch chi'n elwa

| | |
|---|---|
| **Manteision** | - 36 diwrnod o wyliau y flwyddyn (gan gynnwys gŵyl banc ychwanegol yn yr Alban a gwyliau banc eraill).<br>- Diwrnod ychwanegol o wyliau yn cael ei ddyfarnu ar ôl cwblhau blwyddyn 1af, ac wedyn 3edd, 5ed a 7fed blwyddyn o gyflogaeth.<br>- Cau gweithredol yn ystod cyfnod y Nadolig (wedi'i gynnwys yn yr hawl).<br>- Cynllun pensiwn cyfrannol – cyfraniad cyflogwr o 6%.<br>- Rhaglen sefydlu gynhwysfawr a buddsoddiad mewn dysgu a datblygu i'ch galluogi chi i fod y gorau y gallwch fod nawr ac yn y dyfodol.<br>- Rhaglen Cymorth Cyflogeion i chi ac aelodau o'ch teulu.<br>- Yswiriant Bywyd sydd 3 gwaith eich cyflog.<br>- Cynllun Benthyciad Argyfwng.<br>- Tâl salwch galwedigaethol hael.<br>- Gweithio hyblyg: byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith, boed hynny'n weithio gartref, oriau cywasgedig neu weithio'n rhan amser.<br>- Dyddiau datblygu staff: cyfle i ymweld â maes arall o'n gwaith i ddysgu gan gydweithwyr. |

# Sut i ymgeisio



Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n addas i ni a'r rôl, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Ewch i'r botwm 'Ymgeisio' ar y dudalen swyddi gwag ar y wefan. Bydd hyn yn mynd â chi i'n porthol recriwtio ni lle bydd gofyn i chi uwchlwytho ffurflen gais.

Fe fyddem hefyd yn gwerthfawrogi pe baech yn llenwi'r ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y wefan.

## Dyddiad cau

Y dyddiad cau ar gyfer y rôl yw dydd Sul 6 Hydref.

Sylwch ein bod yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag yma cyn y dyddiad cau felly gwnewch gais yn gynnar i osgoi cael eich siomi.

## Dyddiad y cyfweliad

Byddwn yn cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb yng Nghanolbarth Cymru ar ddydd Gwener 25 Hydref.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rôl, mae croeso i chi anfon e-bost i jobs@plantlife.org.uk

**plantlife.org.uk**

Plantlife yw'r elusen fyd-eang sy'n gweithio i wella, gwarchod, adfer a dathlu'r planhigion gwyllt a'r ffyngau sy'n hanfodol i holl fywyd y ddaear. Gyda dwy o bob pum rhywogaeth o blanhigyn mewn perygl o ddifodiant, mae'r colli ar fioamrywiaeth y cyflymaf y bu erioed erbyn hyn – sy'n golygu bod ein gwaith ni'n fwy hanfodol nag erioed. Rydyn ni'n hyrwyddo ac yn cyflymu gweithredu cadwraeth, gan weithio wrth galon rhwydwaith byd-eang o unigolion a sefydliadau, i ysbrydoli a dylanwadu ar berchnogion a rheolwyr tir, cyrff cyhoeddus a phreifat, llywodraethau a chymunedau lleol. Wrth i amser ddechrau prinhau, rydyn ni'n defnyddio ein safle fel llais byd-eang ar gyfer planhigion gwyllt a ffyngau i greu newid parhaol

Noddwr: Ei Uchelder Brenhinol y Brenin Charles III

Mae Plantlife International - The Wild Plant Conservation
Charity yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant.
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, Rhif Elusen: 1059559. Cofrestrwyd yn yr Alban, Rhif Elusen: SC038951.
Rhif Cwmni Cofrestredig: 3166339.